

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideo gynadledda drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/6557>

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Tachwedd 2020

Amser: 14.20 – 17.30

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Alun Davies AS Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS
Tystion:	Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Lindsay Foyster, Archwilio Cymru Nicola Evans, Swyddfa Archwilio Cymru Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc)



1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Mark Reckless AS bellach wedi gadael y Pwyllgor, a diolchodd iddo am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 21 Hydref 2020

2.2 PTN 2 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Archwilio Cymru: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – adran 118 – 27 Hydref 2020

2.3 PTN 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd: Craffu ar reoliadau COVID-19 – 22 Hydref 2020

2.4 PTN 4 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Data Cwynion y GIG – 27 Hydref 2020

3 Goruchwyllo Swyddfa Archwilio Cymru – Craffu ar Amcangyfrif 2021 – 22 a'r Adroddiad Dros Dro: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Wrth graffu ar Amcangyfrif 2021–22 a'r Adroddiad Dros Dro, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn: Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru;

Lindsay Foyster, Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru; a Nicola Evans, Pennaeth Cyllid, Archwilio Cymru.

4 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020–21: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020–21 gan y tystion a ganlyn: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; a Matthew Denham–Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am yr eitemau a ganlyn:

- dadansoddiad mwy manwl o'r pecyn sefydlogi gwerth £800 miliwn i helpu GIG Cymru i ymateb i effeithiau parhaus pandemig COVID-19; a
- nodyn ar elfen 'Brofi' strategaeth 'Profi, Olrhain a Diogelu' Llywodraeth Cymru. Yn benodol, gofynnir am wybodaeth am unrhyw newidiadau tebygol yn y dyfodol agos i'r strategaeth 'Brofi' a'r dyraniad cyllid cysylltiedig.

5 Bil Marchnad Fewnol y DU: Sesiwn dystiolaeth

5.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Fil Marchnad Fewnol y DU gan y tystion a ganlyn: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; a Matthew Denham–Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac ar gyfer eitemau 1 a 2 yn y cyfarfod ar 9 Tachwedd

6. Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

7 Bil Marchnad Fewnol y DU: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunodd i adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

8 Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020–21: Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Goruchwyllo Swyddfa Archwilio Cymru – Craffu ar Amcangyfrif 2021–22 a'r Adroddiad Dros Dro: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.